------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Ebrill 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 64(v5)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd Arweinydd y Tŷ yn ateb cwestiynau ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 4 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 12 mewn perthynas â Chwestiynau Amserol

(5 munud)

**NDM6287** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 12 – Cwestiynau Amserol a Chwestiynau Brys' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mawrth 2017.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 11 a 12, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 5 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod

(30 munud)

**NDM6227** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar leihau gwastraff.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai lleihau gwastraff drwy roi gofyniad ar gynhyrchwyr a manwerthwyr bwyd mewn cysylltiad â phecynnu bwyd.

## 6 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar Benodiadau Gweinidogion: Gwrandawiadau cyn penodi gan Bwyllgorau'r Cynulliad

(30 munud)

**Dogfen Ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 7 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6260**

[Lee Waters (Llanelli)]

[Jeremy Miles (Castell-nedd)]

[Hefin David (Caerffili)]

[Vikki Howells (Cwm Cynon)]

[David Melding (Canol De Cymru)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod yr hyn a elwir yn 'bedwerydd chwyldro diwydiannol' yn cynnig heriau a chyfleoedd i economi Cymru.

2. Yn nodi bod risg i tua 700,000 o swyddi yng Nghymru dros y ddau ddegawd nesaf o ganlyniad i awtomatiaeth.

3. Yn credu bod gan Gymru arbenigedd eisoes sy'n rhoi mantais gystadleuol mewn diwydiannau twf sy'n dod i'r amlwg.

4. Yn cydnabod bod angen inni, er mwyn manteisio ar y diwydiannau newydd hyn, ganolbwyntio ar ddulliau cyflym, hyblyg sy'n addasu'n rhwydd i amgylchiadau sydd wedi newid.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailedrych ar Strategaeth Arloesi Cymru gyda'r bwriad o sicrhau ei bod yn adlewyrchu maint a chwmpas yr amhariad rydym yn ei wynebu, ac yn ymrwymo i adolygiad strategol o gyfleoedd mewn sectorau newydd twf uchel, lle mae gan Gymru'r potensial i sicrhau ei bod yn dominyddu'r farchnad yn gynnar fel rhan o'i gwaith ar ddatblygu strategaeth economaidd newydd.

'Strategaeth Arloesi Cymru'

## 8 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6268** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pa mor bwysig yw cynllunio sgiliau ymlaen llaw er mwyn diwallu anghenion y diwydiant adeiladu yn y dyfodol i ddarparu prosiectau seilwaith yng Nghymru a thu hwnt.

2. Yn credu bod angen diwygio proses gaffael y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn elwa'n llawn ar botensial cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pŵer prynu sector cyhoeddus Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gyflwyno Bil Caffael i'w gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus ddilyn polisi Llywodraeth Cymru ar gaffael, er mwyn sicrhau bod adeiladu yn cael yr effaith gymdeithasol ac economaidd fwyaf bosibl;

b) sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer proses gaffael y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn sicrhau y caiff y dyheadau yn Natganiad Polisi Caffael Cymru eu gwireddu;

c) codi lefelau gwariant seilwaith cyfalaf er mwyn hybu'r economi yng Nghymru, gan roi hwb angenrheidiol i'r sector adeiladu;

d) ystyried yr achos dros sefydlu Coleg Adeiladu Cenedlaethol i Gymru er mwyn meithrin sgiliau o ansawdd uchel yn y diwydiant adeiladu.

'Datganiad Polisi Caffael Cymru'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Dileu'r cyfan ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

2. Yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru yn datblygu Datganiad Polisi Caffael Cymru sydd wedi lleihau rhwystrau rhag caffael ar gyfer busnesau bach a chanolig ar hyd a lled Cymru.

3. Yn cydnabod yr angen i gynyddu gallu o fewn sector cyhoeddus Cymru i fanteisio i'r eithaf ar effaith gwariant caffael o fewn economi Cymru.

4. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen newydd ar gyfer caffael er mwyn helpu i alluogi sector cyhoeddus Cymru i wneud defnydd deallus o bolisi a deddfwriaeth ar draws Cymru.

5. Yn cydnabod cynlluniau buddsoddi cyfalaf Llywodraeth Cymru a'r cyfleoedd caffael sylweddol sy'n cael eu cyflwyno gan gynlluniau Metro De Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru; rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif; ffordd liniaru'r M4; adeiladu 20,000 o dai fforddiadwy; gwelliannau i rwydwaith trafnidiaeth Cymru a phrosiectau seilwaith sylweddol eraill.

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu mesurau a fydd yn rhoi contractau'r sector cyhoeddus o fewn cyrraedd cwmnïau Cymru, yn arbennig busnesau bach a chanolig.

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6286** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y rhan bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus o bwys ledled Cymru.

2. Yn nodi y dylai llywodraeth leol gryf ac effeithiol weld grym yn cael ei roi yn ôl yn nwylo pobl leol a'u cymunedau.

3 Yn cydnabod y rhan bwysig a gaiff ei chwarae gan fusnesau bach o ran llywio economi Cymru ac yn credu y dylai awdurdodau lleol gydweithio'n agos â'r gymuned fusnes i annog mwy o gydweithredu, arloesi ac entrepreneuriaeth.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi pa mor bwysig yw rhannu arfer gorau ymysg awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn cyflawni gwell canlyniadau o ran gwasanaethau cyhoeddus i etholwyr.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol i etholiadau lleol er mwyn cryfhau atebolrwydd llywodraeth leol a gwella gwasanaethau cyhoeddus lleol.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6285** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Dinas-Ranbarth Bae Abertawe.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Mai 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 29 Mawrth 2017 i'w hateb ar 5 Ebrill 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am lesiant anifeiliaid egsotig yng Nghymru? OAQ(5)0128(ERA)**W**

**2. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i hyrwyddo'r broses o gynhyrchu bwyd iachach? OAQ(5)0122(ERA)

**3. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0124(ERA)

**4. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r sector amaethyddiaeth yng Nghymru? OAQ(5)0127(ERA)

**5. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cynnal â Severn Trent ynghylch gwasanaethau dŵr yng Nghymru? OAQ(5)0125(ERA)**W**

**6. Michelle Brown (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am safbwynt Llywodraeth Cymru o ran allforio anifeiliaid byw i gael eu lladd? OAQ(5)0130(ERA)

**7. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gynlluniau wrth gefn sydd ar waith i fynd i'r afael â'r posibilrwydd na fydd gan Lywodraeth y DU weithdrefnau yn eu lle i barhau â chymorthdaliadau ffermio'r UE ar ôl gadael yr UE? OAQ(5)0126(ERA)

**8. Gareth Bennett (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effaith amgylcheddol defnyddio beiciau modur yn anghyfreithlon oddi ar y ffyrdd yng Nghymru? OAQ(5)0129(ERA)

**9. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau allyriadau carbon? OAQ(5)0123(ERA)**W**

**10.** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am drwyddedu siopau anifeiliaid anwes yng Nghymru? OAQ(5)0131(ERA) **TYNNWYD YN ÔL**

**11.** Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo i wella'r amgylchedd lleol yn Nwyrain De Cymru? OAQ(5)0132(ERA)

**12.** Leanne Wood (Rhondda): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau dyfodol ar gyfer ffermio yng Nghymru? OAQ(5)0133(ERA)

**13.** Vikki Howells (Cwm Cynon): Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cyfraddau ailgylchu? OAQ(5)0120(ERA)

**14.** Lee Waters (Llanelli): Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran datblygu strategaeth genedlaethol ar amaethyddiaeth fanwl? OAQ(5)0119(ERA)

**15.** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y system drwyddedu ar gyfer bridio a gwerthu anifeiliaid? OAQ(5)0121(ERA)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

**1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn gallu ei gynnig i sicrhau bod pobl fyddar yn cael yr addasiadau perthnasol i'w cartrefi? OAQ(5)0130(CC)**W**

**2.** Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei darparu i'r sector gwirfoddol yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro? OAQ(5)0138(CC) **TYNNWYD YN ÔL**

**3.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o effaith Credyd Cynhwysol yng Nghymru? OAQ(5)0133(CC)

**4.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0137(CC)

**5.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0135(ERA)**W**

**6.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adeiladu cartrefi newydd i'w rhentu gan gynghorau Cymru? OAQ(5)0128(CC)

**7.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymestyn yr hawl i gael gofal plant am ddim? OAQ(5)0129(CC)

**8.** **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael â gweinidogion cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban ynghylch hawliadau a hawliau plant? OAQ(5)0136(CC)

**9.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am drefniadau pontio ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(5)0134(CC)

**10.** **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu cynnydd o ran gwella'r broses o gasglu data ar gyfer rhaglenni cymunedau Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0131(CC)

**11.** **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro? OAQ(5)0139(CC)
**TYNNWYD YN ÔL**

**12.** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru? OAQ(5)0127(CC)

**13.** **David Rees (Aberafan):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi manylion y trafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch lleoli carchar newydd ym Maglan? OAQ(5)0132(CC)

**14.** **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi sefydliadau gwirfoddol ledled Cymru? OAQ(5)0125(CC)